



# Arweiniad Ymgeisio

Grantiau Treftadaeth  
y Loteri Genedlaethol  
**£250,000–£5 miliwn**

# Cynnwys



Gallwch glicio  
i lywio'r  
ddogfen yma

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>	<b>Y broses ymgeisio</b>	<b>12</b>
<b>Rhestr wirio ar gyfer ceisiadau</b>	<b>5</b>	<b>Sut byddwn yn asesu eich cais</b>	<b>13</b>
<b>Pwy all wneud cais?</b>	<b>6</b>	<b>Dogfennau ategol</b>	<b>18</b>
<b>Beth allwn ei ariannu?</b>	<b>7</b>	<b>Beth sy'n digwydd ar ôl i chi gyflwyno cais?</b>	<b>21</b>
<b>Cyn i chi wneud cais</b>	<b>9</b>	<b>Gwybodaeth ychwanegol</b>	<b>26</b>
<b>Eich cyfraniad</b>	<b>11</b>		


# Cyflwyniad

**Gan ddefnyddio arian a godir drwy'r Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth y DU i greu newid cadarnhaol a pharhaol i bobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.**

**Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer holl fathau o brosiectau treftadaeth yn y DU.**

**Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol ar gyfer ceisiadau grant o £250,000 i £5 miliwn. Ar lefel y grant hwn, mae angen i chi anfon datganiad o ddiddordeb atom yn gyntaf. Os cewch eich gwahodd i wneud cais, yna bydd eich cais yn mynd trwy gyfnod datblygu a chyfnod gweithredu prosiect.**

Bydd y canllawiau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi ynghylch y rhaglen a'r mathau o brosiectau y gallwn eu hariannu. Bydd hefyd yr adnoddau canlynol yn ddefnyddiol wrth gyflwyno eich cais:

- **Ffurflen gais a nodiadau cymorth:** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cwestiynau'r ffurflen gais fel y gallwch weld yr hyn y byddwn yn ei ofyn i chi cyn i chi ddechrau ar eich cais. Mae'n cynnwys rhai nodiadau cyfarwyddyd i'ch helpu i ateb y cwestiynau (maent wedi'u cynnwys yn y ffurflen gais wrth i chi glicio ar yr eicon hwn: )
- **Derbyn grant:** Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth ynghylch yr hyn sydd angen i chi ei wneud os ydych yn llwyddiannus ac mae'n cynnwys mwy o fanylion ynglŷn â'n gofynion.
- **Telerau safonol y grant:** Mae'r ddogfen hon yn amlinellu telerau ein grantiau.
- **Canllaw arfer da:** Dolen gyswllt i ddogfennau ynghylch amrywiaeth o bynciau i'ch helpu i gyflawni prosiect o safon uchel.



**Mae'r eicon hwn yn cael ei ddangos wrth ochr y dolenni i'r wybodaeth bellach ar-lein.**

# Ynglŷn â'r rhaglen

## Enw'r rhaglen

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

## Grantiau o

£250,000 i £5 miliwn

## Ceisiadau gan

sefydliadau dielw a phartneriaethau sy'n cael eu harwain gan sefydliadau dielw

## Gofynion

Rhaid i chi beidio â dechrau ar eich prosiect cyn i ni wneud penderfyniad ac mae'n rhaid iddo ganolbwyntio ar dreftadaeth yn y DU

## Hyd y prosiect

Cam datblygu hyd at ddwy flynedd, cam cyflenwi hyd at bum mlynedd

## Cyn i chi wneud cais

Rhaid i chi gyflwyno ffurflen datganiad o ddiddordeb i roi gwybod i ni ynghylch eich syniad a byddwn yn rhoi gwybod i chi os ydych yn cael eich gwahodd i gyflwyno cais

## Terfynau amser

Ceir terfynau amser bob chwarter ar gyfer ein pwyllgor a'r bwrdd, a gallwch ddod o hyd iddynt ar ein gwefan

## Y broses asesu

Byddwn yn asesu'ch cais o fewn 12 wythnos ac, yn dilyn eich asesiad, bydd yn cael ei aseinio i gyfarfod penderfynu chwarterol

## Eich cyfraniad (arian partneriaeth)

Rhaid i chi gyfrannu o leiaf 5% o gostau'r prosiect ar gyfer grantiau hyd at £1 miliwn ac o leiaf 10% ar gyfer grantiau gwerth £1 miliwn neu fwy

**Rhaid i'ch prosiect  
beidio â dechrau cyn  
bod penderfyniad yn  
cael ei wneud a rhaid  
iddo ganolbwyntio ar  
dreftadaeth yn y DU.**

# Rhestr wirio ar gyfer ceisiadau

Defnyddiwch y rhestr wirio ddefnyddiol hon i sicrhau eich bod yn barod i gyflwyno cais



- Rydw i wedi darllen y ddogfen ganllaw hon a deunydd darllen hanfodol arall
- Rydw i wedi darllen **telerau ac amodau'r** rhaglen grant hon
- Rydw i wedi llunio cyllideb i'r prosiect ac wedi gwirio fy nghostau
- Rydw i wedi cynllunio sut i **werthuso fy mhrosiect**
- Rydw i wedi atodi'r holl **ddogfennau ategol** gorfodol
- Rydw i wedi cyflwyno ffurflen **Datganiad o Ddiddordeb**

## Os yn berthnasol

- Mae gen i bob trwydded a'r caniatâd sydd ei hangen arnaf (er enghraifft, trwydded ystlumod neu ganiatâd adeilad rhestredig)
- Gallaf fodloni'r gofynion perchnogaeth ar gyfer yr eiddo sy'n derbyn grant

# Pwy all wneud cais?

## O dan y rhaglen hon, rydym yn derbyn ceisiadau gan y canlynol:

- sefydliadau dielw
- partneriaethau sydd dan arweiniad sefydliadau dielw

## Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o sefydliadau rydym yn eu cyllido:

- elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol corfforedig
- grwpiau cymunedol a grwpiau gwirfoddol
- cynghorau cymuned neu blwyf
- cwmnïau buddiant cymunedol
- sefydliadau ffydd neu eglwys
- awdurdodau lleol
- sefydliadau eraill y sector cyhoeddus

## Os ydych yn gwneud cais ar y cyd, bydd angen i chi benderfynu pa sefydliad fydd yr ymgeisydd arwain.

Byddwn yn gofyn am gael gweld eich cyfansoddiad neu ddogfen lywodraethol (gweler dogfennau ategol ar dudalen 18). Rhaid i chi fod ag o leiaf dau o bobl ar eich bwrdd neu bwyllgor rheoli nad ydynt yn perthyn drwy waed neu briodas neu sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

## Partneriaethau

Rydym yn eich annog i weithio gyda phobl eraill i ddatblygu a chynnal eich prosiect. Os ydych yn bwriadu gweithio gyda sefydliad arall i gynnal rhan helaeth o'ch prosiect, rydym yn eich cynghori i ffurfioli eich perthynas â chytundeb partneriaeth.

Os bydd partneriaid eich prosiect yn darparu nwyddau neu wasanaethau y telir amdanynt drwy ein grant, bydd angen i ni weld eich cytundeb partneriaeth fel rhan o'ch cais (gweler dogfennau ategol ar dudalen 18 a'r canllawiau ar gaffael ar dudalen 23).

Os ydych yn gwneud cais ar y cyd, bydd angen i chi benderfynu pa sefydliad fydd yr ymgeisydd arwain. Bydd yr ymgeisydd arwain yn cwblhau'r ffurflen gais ac, os ydych yn llwyddiannus, bydd yn derbyn y grant ac adrodd ar gynnydd. Fel arfer, rydym yn disgwyl i brif berchennog y dreftadaeth fod yr ymgeisydd arwain. Os nad perchennog y dreftadaeth sy'n cyflwyno'r cais, yna byddwn yn gofyn iddo lofnodi telerau'r grant.

# Beth allwn ei ariannu?

**Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol y DU.**

**Gall treftadaeth olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Gall olygu unrhyw beth o'r gorffennol rydych yn ei werthfawrogi ac am drosglwyddo i genhedloedd y dyfodol.**

**Fel canllaw, gallai hyn olygu:**

- atgofion a phrofiadau pobl (a gofnodir yn aml fel 'hanes ar lafar')
- traddodiadau diwylliannol (fel straeon, gwyliau, crefftiau, cerddoriaeth a dawns)
- natur (fel cynefinoedd, rhywogaethau a daeareg)

- tirweddau naturiol a rhai a gynlluniwyd megis parciau a gerddi
- archaeoleg gymunedol
- adeiladau, cofebion ac amgylcheddau hanesyddol
- casgliadau o wrthrychau, llyfrau neu ddogfennau mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd neu archifau
- hanesion pobl a chymunedau neu leoedd a digwyddiadau
- treftadaeth ieithoedd a thafodieithoedd
- lleoedd a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'n hanes diwydiannol, morwrol a thrafnidiaeth

**Rydym ond yn ariannu prosiectau:**

- sydd â chynllun eglur gyda dechrau, canol a diwedd diffiniedig
- nad ydynt wedi dechrau eto
- sy'n cynnwys cam datblygu a fydd yn parhau hyd at ddyw flynedd
- sy'n cynnwys cyfnod cyflenwi a fydd yn parhau hyd at bum mlynedd


**Gallwn dalu am amrediad eang o gostau uniongyrchol prosiect. Fel enghraifft, gallai eich prosiect gynnwys:**

- pris prynu casgliad o eitemau neu eiddo
- gwaith atgyweirio a chadwraeth
- allbynnau digidol
- staff newydd
- lleoliadau hyfforddi y telir amdanynt
- ffioedd proffesiynol

Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at y ffurflen gais a'r nodiadau cymorth.

**Ni allwn dalu am y canlynol:**

- swyddi staff presennol neu gostau sefydliadol (heblaw eu bod wedi'u cyfrifo drwy Adennill Costau Llawn)
- cyfrifoldebau statudol a/neu gyfreithiol
- hyrwyddo achosion neu gredoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd
- TAW adferadwy
- costau unrhyw weithgaredd sydd wedi digwydd cyn i'r grant gael ei ddyfarnu

**Os yw'ch prosiect wedi'i leoli yng Nghymru, rydym yn disgwyl i chi wneud defnydd priodol o'r Gymraeg pan fyddwch yn cyflenwi'ch prosiect. Gallwch chi ddod o hyd i ganllawiau am ddefnyddio'r Gymraeg yn eich prosiect ar ein [gwefan](#). **

## Adennill costau llawn

Os ydych yn sefydliad o fewn y sector gwirfoddol, gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad, y mae'n rhaid iddynt fod yn briodol i'r amser neu adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu cyfran o gost aelod o staff sy'n bodoli eisoes, cyn belled nad yw'n gweithio ar y prosiect a ariennir yn unig. Rydym yn disgwyl i'r cyfraniad hwn gael ei gyfrifo gan ddefnyddio Adennill Costau Llawn.

Yn ôl y sector gwirfoddol, rydym yn golygu sefydliadau sy'n annibynnol o'r llywodraeth lle mae'r llywodraethu, cyllid ac adnoddau yn cynnwys ffocws gwirfoddol. Er enghraifft, gall fod gan sefydliad o fewn y sector gwirfoddol fwrdd ymddiriedolwyr, gall gael ei ariannu gan grantiau a rhoddion, a gall ddibynnu ar wirfoddolwyr i gwblhau ei amcanion.

Ni allwn dderbyn ceisiadau am adennill costau llawn gan sefydliadau'r sector cyhoeddus (megis amgueddfeydd a gyllidir gan y llywodraeth, awdurdodau lleol neu brifysgolion).

Mae arweiniad cydnabyddedig ar gyfrifo'r cyfanswm Adennill Costau Llawn sy'n

berthnasol i'ch prosiect ar gael gan sefydliadau megis Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO) [a Chronfa'r Loteri Fawr](#) [↗](#). Bydd angen i chi ddangos i ni sut rydych wedi cyfrifo'ch costau, yn seiliedig ar gyfrifon a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yna, bydd rhaid i chi ddweud wrthym ar ba sail rydych wedi pennu cyfran o'r costau i'r prosiect rydych yn gofyn i ni ei gyllido, a byddwn yn asesu a yw hyn yn deg ac yn rhesymol.

## Cynlluniau grant cymunedol

Fel rhan o'ch prosiect, gallwch ofyn inni gyfrannu at swm o arian sydd wedi'i neilltuo y gallwch ei ddefnyddio i ariannu grwpiau neu sefydliadau eraill i gyflenwi prosiectau bach annibynnol. Rydym yn galw'r grantiau hyn yn 'grantiau cymunedol'. Bydd y grantiau cymunedol hyn yn cyfrannu tuag at amcanion cyffredinol eich prosiect. Rhaid i unrhyw grantiau o'r math hwn arddangos gwerth da am arian, a dylai'r budd i'r cyhoedd fod yn fwy nag unrhyw fuddion preifat. Byddwch yn gyfrifol am reoli'r arian neilltuedig, datblygu proses cyflwyno ceisiadau gyda phanel penderfynu, a monitro cynnydd. Rhaid i'r cynllun grant cymunedol gael ei gyhoeddi gennych hefyd fel ei fod yn hysbys yn eang ac ar gael i bawb ei ddarllen.

## Gallwch ofyn inni gyfrannu at swm o arian sydd wedi'i neilltuo y gallwch ei ddefnyddio i ariannu sefydliadau eraill i gyflenwi prosiectau bach annibynnol.

Gallwch ddyfarnu grantiau i grwpiau cymunedol dielw neu berchnogion preifat treftadaeth (er enghraifft, perchnogion archifau, tir neu adeiladau). Gall y grantiau rydych yn eu dyfarnu fod ar gyfer gwaith cyfalaf a gweithgareddau.

### Rydym yn argymhell nad yw cyfanswm yr arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cynllun grant cymunedol yn fwy na £200,000.

Dylech leihau unrhyw grant unigol i:

- gweithgaredd: £10,000
- cyfalaf: £25,000

Efallai y bydd yn rhaid i rai prosiectau fynd y tu hwnt i'r terfyn eithaf er mwyn cadw treftadaeth sy'n allweddol i gymeriad ardal – er enghraifft, os ydych yn adnewyddu adeilad fel rhan o gynllun treflun. Os oes angen cyllideb grant cymunedol fwy ar eich prosiect neu ddyfarniadau mwy i drydydd partion unigol, bydd angen i chi ein hysbysu ynghylch hyn yn eich ffurflen datganiad o ddiddordeb a'i gyfiawnhau yn eich cais.

Os yw eich prosiect yn cynnwys grantiau cymunedol i naill ai sefydliadau neu unigolion ar gyfer gwaith cyfalaf i'r dreftadaeth sy'n eiddo iddynt, rhaid i'r grantiau hyn gael eu llywodraethu yn y dyfodol gan gytundeb gwaith cynnal a chadw deng mlynedd.

Ni chaniateir caffaeliadau tir, adeiladau nac eitemau treftadaeth dan gynlluniau grant cymunedol.

Rhaid i unrhyw grantiau i drydydd partion arddangos gwerth da am arian a dylai'r budd i'r cyhoedd fod yn fwy nag unrhyw fuddion preifat.

**Gallwch chi ddod o hyd i fwy o wybodaeth am grantiau cymunedol a gwaith cynnal a chadw ar ein [gwefan](#).**



# Cyn i chi wneud cais

## Mae angen i bob un o'r prosiectau rydym yn eu cefnogi:

- fodloni un neu fwy o'r canlyniadau ar y dudalen hon, gan gynnwys yr un gorfodol
- mynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol
- hyrwyddo rôl y Loteri Genedlaethol wrth wireddu'r prosiect
- cynnal gwerthusiad

Bydd yr wybodaeth yn yr adran hon yn eich helpu i ystyried y pwyntiau hyn yn ystod y cam cynnar o gynllunio eich cais.

## Arweiniad

Mae gennym lawer o wybodaeth ar ein gwefan i'ch helpu i reoli a datblygu eich prosiect.

## Mae'r canlynol yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer pob prosiect:

- [Canllawiau ar gynllun gweithgarwch neu gynllun gweithredu ardal](#)
- [Gwybodaeth ar sut i gydnabod eich grant](#)
- [Canllawiau gwerthuso](#)
- [Deall eich treftadaeth \(ar gael ar ein gwefan\)](#)
- [Canllawiau ar gynaliadwyedd amgylcheddol](#)

## Os yw eich prosiect yn ymwneud â gwaith cyfalaf, dylech hefyd ddarllen y dogfennau canlynol sydd ar gael ar ein gwefan:

- [Canllawiau cynllun cadwraeth](#)
- [Canllawiau cynllun rheoli a chynnal a chadw](#)

Rydym yn disgwyl i'r holl brosiectau ddilyn arferion gorau ar gyfer rheoli prosiectau. Mae gennym rywfaint o arweiniad ar hyn a thempledi ar gyfer dogfennau allweddol (er enghraifft, mae llif arian prosiect ar gael ar ein [gwefan](#)).

## Canlyniadau

Rydym yn disgrifio'r gwahaniaeth rydym yn dymuno ei wneud gyda'n cyllid drwy gyfrwng naw canlyniad. Diffinid canlyniadau yw newidiadau, effeithiau neu fanteision sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'ch prosiect.

Bydd pob prosiect a ariennir gennym yn bodloni un neu fwy o'r canlyniadau hyn. Bydd nifer y canlyniadau rydych yn eu cyflawni yn dibynnu ar yr hyn rydych am ei gyflenwi a dylent fod yn gymesur i faint y grant rydych yn gwneud cais amdano neu ffocws penodol eich prosiect.

Rydym yn disgwyl i brosiectau gyflawni rhai canlyniadau yn gryfach na rhai eraill. Gofynnwn i chi ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd gryfach ar gyfer eich prosiect, oherwydd byddwn yn monitro eich cynnydd yn erbyn y rhain a byddwch yn eu defnyddio i werthuso'r newid mae eich prosiect wedi'i wneud. Rhaid i bob prosiect gyflawni'r canlyniad '**bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth**' fel isafswm.

- **Bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth (canlyniad gorfodol)**
- Bydd y dreftadaeth mewn cyflwr gwell
- Bydd y dreftadaeth yn cael ei nodi a'i hesbonio'n well
- Bydd pobl wedi datblygu sgiliau
- Bydd pobl wedi dysgu am y dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a gweithredoedd
- Bydd pobl yn cael mwy o les
- Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy cydnherth
- Bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw neu weithio ynddi neu i ymweld â hi
- Bydd yr economi leol yn cael hwb

**Ceir mwy o wybodaeth am ein canlyniadau, a sut gallwch fesur eich cynnydd yn eu herbyn, yn y ffurflen [gais a nodiadau cyfarwyddyd](#) ar gyfer y rhaglen hon.**

## Effaith amgylcheddol

Bydd angen i chi ystyried sut i wneud eich prosiect yn fwy cynaliadwy trwy gynyddu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a lleihau effeithiau negyddol, a dylech ymgorffori hyn yn eich prosiect o'r dechrau.

Dylech hefyd ystyried sut byddech yn gwerthuso eich mesurau cynaliadwyedd a sicrhau bod hyn yn rhan o strategaeth werthuso eich prosiect. Byddwn yn gofyn i chi nodi ac adrodd ar y camau rydych yn eu cymryd. Mae ein [canllawiau ar yr effaith amgylcheddol](#) yn darparu rhywfaint o gyngor cyffredinol, a gallwch hefyd gael hyd i gymorth ymarferol o'r [rhwydwaith 'Fit for the Future'](#).

## Hyrwyddo eich grant Loteri Genedlaethol

Rhaid i chi ymrwmo i gydnabod eich grant a hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol. Gallwch weld mwy am ein gofynion sylfaenol ynghylch cydnabyddiaeth ar ein [gwefan](#). Yn ogystal â chydabod eich grant, rydym yn disgwyl i chi ddarparu mynediad arbennig a/neu gynigion i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rydym yn disgwyl i chi ddatblygu cynigion neu ddulliau hyrwyddo arloesol a chreadigol i ddiolch chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth ac i godi ymwybyddiaeth o'r cyllid rydych wedi'i dderbyn. Gellir gweld enghreifftiau o'r rhain, ac esiamplau o bethau creadigol mae prosiectau eraill wedi'u cyflawni, ar ein [gwefan](#).

Os yw'ch grant yn fwy nag £1 miliwn tuag at arddangosfa, canolfan ymwelwyr, gardd gymunedol neu gyfleuster newydd arall i'r cyhoedd, byddem hefyd yn hoffi trafod sut byddai'r Loteri Genedlaethol yn gallu cael ei ymgorffori yn enw'r gofod neu safle.

## Gwerthuso

Rydym yn argymhell eich bod yn ymgorffori gwerthusiadau ar ddechrau'r prosiect. Mae ein tystiolaeth yn dangos mai'r mwyaf gofalus mae prosiectau yn cyllidebu ar gyfer gwerthuso, gorau oll yw safon yr adroddiad terfynol. Rydym wedi argymhell isafswm gwariant ar werthuso a gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ynghlŷn â hyn ar ein [gwefan](#).

**Ar ddiwedd eich prosiect, byddwn yn disgwyl rhywfaint o adborth gwerthuso, mewn dwy ran:**

- eich adroddiad gwerthuso eich hun, wedi'i anfon atom cyn i ni dalu'r 10% sy'n weddill o'ch grant
- holiadur gwerthuso, o fewn un flwyddyn o gwblhau'r prosiect. Gallwch weld yr wybodaeth rydym am i chi adrodd arni yn ein canllawiau gwerthuso ar ein [gwefan](#).

**Mae ein tystiolaeth yn dangos mai'r mwyaf gofalus mae prosiectau yn cyllidebu ar gyfer gwerthuso, gorau oll yw safon yr adroddiad terfynol.**

# Eich cyfraniad

**Bydd eich cyfraniad yn dibynnu ar swm y grant rydych yn gofynnu amdano.**

Cais am grant	Cyfraniad
£250,000 i £1 miliwn	O leiaf 5% o gostau eich cam datblygu a 5% o gostau eich cam cyflenwi.
£1 miliwn i £5 miliwn	O leiaf 10% o gostau eich cam datblygu a 10% o gostau eich cam cyflenwi.

Rydym yn disgrifio'r cyfraniad hwn fel 'cyllid partneriaeth' a gall gwmpasu arian parod, cyfraniadau nad ydynt yn ariannol, amser gwirfoddolwyr, neu gyfuniad o bob un o'r rhain. Byddwn yn penderfynu a yw eich prosiect yn cynnig gwerth da am arian ac yn cymryd eich cyfraniad i ystyriaeth.

Os yw'ch prosiect yn ymwneud â gwaith cyfalaf, gall gwerth cynyddu costau rheoli a chynnal a chadw am hyd at bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect gael ei gynnwys fel cyllid partneriaeth. Am fwy o wybodaeth, ewch i'n [canllawiau ar reoli a chynnal a chadw eich treftadaeth](#) [ar-lein](#).

## Cyfraniadau arian parod

Gallai hyn fod o gronfeydd eich sefydliad eich hun, rhodd gan gymwynaswr, grant oddi wrth gyllidwr arall neu gymorth arall a geir trwy godi arian (fel cyllido torfol).

## Cyfraniadau nad ydynt yn ariannol

Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect nad oes rhaid i chi dalu amdano (er enghraifft, llogi ystafell neu offer). Rydym ond yn derbyn cyfraniadau nad ydynt yn ariannol os ydynt yn gostau prosiect uniongyrchol a allai fod yn rhan o gyllideb eich prosiect.

## Amser gwirfoddolwyr

Dyma'r amser mae gwirfoddolwyr yn ei roi i gyflenwi eich prosiect. Gallai hyn gynnwys gwaith gweinyddol, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad. Ni ddylech gynnwys costau ar gyfer amser y bobl a fydd yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau (er enghraifft, pobl sy'n mynychu gweithdy neu'n mynd ar daith dywysedig).

Rydym yn defnyddio cyfradd safonol i gyfrifo gwerth eich amser gwirfoddolwyr:

Gwirfoddolwyr proffesiynol £50 (er enghraifft, cyfrifeg neu fesul awr addysgu)

Gwirfoddolwr crefftus (er enghraifft, arwain taith gerdded dywysedig) £20 fesul awr

Gwirfoddolwr (er enghraifft, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad) £10 fesul awr

## Cyllid y Loteri Genedlaethol

Gallwch ddefnyddio cyllid gan ddsbarthwr Loteri Genedlaethol arall i gyfrannu at eich prosiect fel arian partneriaeth. Fodd bynnag, ni all hyn gyfrif tuag at eich cyfraniad gofynnol o 5% neu 10%, y mae'n rhaid iddo ddod o gyfraniadau gennyh chi neu gan ffynonellau eraill, heb gynnwys y Loteri Genedlaethol.

# Y broses ymgeisio

## Datganiad o ddiddordeb

Mae ein proses ymgeisio yn gystadleuol ac ni allwn gyllido'r holl geisiadau sydd o ansawdd da rydym yn eu derbyn.

Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n rhan o baratoi cais ac felly i gadw'r gystadleuaeth ar lefelau y gellir ymdopi â nhw, ac i roi'r cyfle gorau posibl i chi, rydym yn gofyn i'r holl ymgeiswyr am grant sy'n fwy na £250,000 gwblhau ffurflen datganiad o ddiddordeb byr.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu i benderfynu a ddylem eich gwahodd i gyflwyno cais cyfnod datblygu ai peidio. Nid yw gwahoddiad i gyflwyno cais yn gwarantu y byddwch yn derbyn grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n dangos ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

Rydym yn anelu at ymateb i'ch datganiad o ddiddordeb o fewn 20 diwrnod gwaith o'i dderbyn. Os byddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais, byddwn yn cysylltu â chi i drafod y camau nesaf. Os nad ydym yn eich gwahodd i gyflwyno cais, byddwn yn rhoi esboniad o'r rheswm i chi.

## Cyfnodau datblygu a gweithredu prosiect

Dylai pob cais gynnwys cyfnod datblygu i'ch helpu i weithio ar eich cynnig prosiect. Yn ystod y cyfnod hwn, fe gewch ddealltwriaeth well o'r costau, yr adnoddau, y llinell amser ac anghenion eich cynulleidfaoedd.

Byddwch yn penderfynu pa mor hir y mae angen i chi ddatblygu cynigion eich cyfnod gweithredu prosiect. Efallai y byddwch yn cymryd hyd at ddwy flynedd, yn dibynnu ar gymhlethdod eich prosiect.

Ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen gais, nid yw'n bosibl inni ddychwelyd hyn i chi am waith pellach, neu i ryddhau copi newydd. Felly mae'n bwysig sicrhau eich bod yn hapus â'ch atebion cyn i chi gyflwyno eich ffurflenni cais cyntaf neu ail rownd atom.

Bydd eich cais yn cystadlu â phrosiectau eraill yn y cyfnodau datblygu a gweithredu prosiect. Nid yw dyfarniad cyfnod datblygu yn gwarantu y byddwch yn derbyn arian ar gyfer y cyfnod gweithredu prosiect.

**Mae ein proses ymgeisio yn gystadleuol ac ni allwn gyllido'r holl geisiadau sydd o ansawdd da rydym yn eu derbyn.**

## Penderfyniadau brys

O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn ystyried proses ymgeisio sy'n dilyn llwybr carlam os oes gwir angen penderfyniad cyflymach (er enghraifft, os oes gennych gyfle i brynu eitem treftadaeth mewn ocsiwn ond angen symud yn gynt). Os ydych yn credu bod hyn yn berthnasol i'ch prosiect, dylech gyflwyno ffurflen datganiad o ddiddordeb a byddwn yn trafod hyn â chi.

# Sut byddwn yn asesu eich cais

**Ar ôl i chi anfon eich cais ar-lein atom, byddwn yn gwirio bod popeth yn ei le priodol ac yn cysylltu â chi maes o law i roi gwybod i chi pryd gallwch chi ddisgwyl penderfyniad.**

Fel sefydliad sy'n rhoi arian cyhoeddus, rydym yn cynnal rhai gwiriadau ar yr wybodaeth rydych yn ei darparu i ni wrth ymgeisio (er enghraifft, efallai y byddwn yn gwirio eich hanes gyda ni neu gynnal gwiriadau hunaniaeth neu dwyll).

Oni bai fod angen inni wirio unrhyw beth gyda chi, mae'n annhebygol y byddwch yn clywed oddi wrthym eto nes i ni eich hysbysu o'r penderfyniad.

**Byddwn yn asesu'ch cais mewn 12 wythnos a bydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod pwyllgor chwarterol.**

Dylech ateb yr holl gwestiynau yn y ffurflen gais a sicrhewch eich bod yn disgrifio eich prosiect yng nghwestiwn 1b. Dyma unig adran y ffurflen gais sy'n cael ei chyflwyno'n uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau drosom. Dyma eich cyfle chi i esbonio eich prosiect yn eich geiriau eich hunan.

## Y broses ymgeisio



**Darllenwch y canllawiau ymgeisio a chynlluniwch eich prosiect**



**Anfonwch ffurflen datganiad o ddiddordeb atom**



**Os cewch eich gwahodd i wneud cais, anfonwch eich cais cyfnod datblygu**



**Byddwn yn asesu'ch cais o fewn 12 wythnos**



**Bydd eich cais yn cael ei gyflwyno i gyfarfod pwyllgor chwarterol**




**Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi beth yw'r penderfyniad**

**Pan fyddwn yn asesu eich cais, byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y canlynol:**

- p'un a yw eich prosiect yn berthnasol i dreftadaeth y DU
- pa anghenion a chyfleoedd y bydd y prosiect yn mynd i'r afael â nhw
- pa mor llwyddiannus bydd eich prosiect yn bodloni ein canlyniadau
- gwerth cyffredinol am arian
- risgiau posibl i lwyddiant y prosiect
- sut bydd canlyniadau'r prosiect yn cael eu cynnal
- eich ymagwedd tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol

Os yw eich cais yn cael ei asesu fel darparu gwerth isel am arian, gall gael ei wrthod yn gynharach yn ystod y cyfnod asesu, a byddwn yn eich hysbysu ynghylch hyn ar y pryd.

Bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau drosom yn defnyddio ein barn i ddewis pa geisiadau i'w cefnogi, gan gymryd i ystyriaeth ansawdd, cyflawni canlyniadau, risg, a gwerth am arian. Mae'n bosibl y byddant hefyd yn ystyried materion fel dosbarthu ein cyllid dros ehangder daearyddol a ph'un a yw eich cais yn flaenoriaeth i dderbyn cyllid (fel yr amlinellir yn ein [Fframwaith Cyllid Strategol 2019–2024](#)) .

Mae'n bosibl y bydd ein penderfyniad yn cael ei wneud ychydig wythnosau ar ôl ein cyfnod asesu 12 wythnos, gan ddibynnu ar ddyddiad y cyfarfod nesaf. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried hyn wrth gynllunio llinell amser eich prosiect.

**Mae'n bosibl y bydd ein penderfyniad yn cael ei wneud ychydig wythnosau ar ôl ein cyfnod asesu 12 wythnos, gan ddibynnu ar ddyddiad y cyfarfod nesaf.**

# Yr wybodaeth sydd ei hangen arnom

Mae'r tabl isod yn dangos y lefelau gwahanol o wybodaeth y bydd angen i chi fod wedi eu hystyried yn y rownd gyntaf a'r ail rownd. Gweler hefyd y rhestr o ddogfennau ategol.

Gwybodaeth am	Cais cyfnod datbygu	Cais cyfnod gweithredu prosiect
<b>Gweithgareddau</b>	<b>Cynigion amlinellol:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>pwy sy'n debygol o ymwneud â'ch prosiect?</li> <li>y math ac amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn cysylltu pobl â threftadaeth</li> </ul>	<b>Cynigion manwl:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>cynllun gweithredu manwl sy'n dangos yr holl weithgareddau yn eich prosiect. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn eich Cynllun Gweithgarwch neu Gynllun Gweithredu Ardal.</li> </ul>
<b>Gwaith cyfalaf</b>	<b>Cynigion amlinellol:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>cynllun cadwraeth drafft neu amlinellol</li> <li>manylion perchenogaeth – rhydd-ddaliad neu lesddaliad</li> <li>dadansoddiad cychwynnol o'r gwaith cyfalaf rydych yn bwriadu ei wneud</li> <li>cynlluniau ar gyfer elfennau archeolegol hyd at ac yn cynnwys Cam 1* gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain</li> <li>cynlluniau ar gyfer elfennau nad ydynt yn archeolegol, megis dehongli neu allbynnau digidol, sy'n cyfateb i Gam 1 gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain</li> <li>prisiad annibynnol os yw'r prosiect ar gyfer caffael casgliadau neu wrthrychau unigol</li> </ul>	<b>Cynigion manwl:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>cynllun cadwraeth, os oes angen</li> <li>dylai perchnogaeth gael ei chadarnhau a bodloni ein gofynion</li> <li>cynlluniau a chynigion manwl ar gyfer gwaith cyfalaf rydych yn bwriadu ei wneud</li> <li>cynlluniau ar gyfer elfennau archeolegol hyd at ac yn cynnwys Cam 3 gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain</li> <li>cynlluniau ar gyfer elfennau nad ydynt yn archeolegol, megis dehongli neu allbynnau digidol, sy'n cyfateb i Gam 3 gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain</li> </ul>
<b>Canlyniadau'r prosiect</b>	Gwybodaeth amlinellol am ganlyniadau posibl eich prosiect	Gwybodaeth fanwl am y canlyniadau y bydd eich prosiect yn eu cyflawni

Gwybodaeth am	Cais cyfnod datblygu	Cais cyfnod gweithredu prosiect
<b>Rheolaeth y prosiect</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwybodaeth fanwl am y gwaith y byddwch yn ei wneud yn ystod eich cam datblygu</li> <li>Gwybodaeth fanwl am sut byddwch yn rheoli eich cam datblygu, gan gynnwys briffiau ar gyfer gwaith i'w gwblhau gan ymgynghorwyr a disgrifiadau swydd newydd</li> <li>Amserlen fanwl ar gyfer eich cyfnod datblygu</li> <li>Gwybodaeth amlinellol ynghylch sut y byddwch yn rheoli eich cam datblygu</li> <li>Amserlen amlinellol ar gyfer y cam datblygu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwybodaeth fanwl am sut y byddwch yn rheoli eich cyfnod cyflenwi, gan gynnwys briffiau ar gyfer gwaith i'w gwblhau gan ymgynghorwyr a disgrifiadau swydd newydd</li> <li>Amserlen fanwl ar gyfer eich cyfnod cyflenwi</li> </ul>
<b>Ar ôl i'r prosiect ddod i ben</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun busnes cyfredol eich sefydliad</li> <li>Gwybodaeth amlinellol ynghylch sut y byddwch yn cynnal canlyniadau eich prosiect ar ôl i'r cyllid ddod i ben, gan gynnwys ariannu costau rhedeg ychwanegol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun busnes eich sefydliad, wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu eich cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r prosiect a chynnal buddion y prosiect wedi i'r cyllid ddod i ben, gan gynnwys ariannu unrhyw gostau rhedeg ychwanegol</li> <li>Gwybodaeth fanwl am sut y byddwch yn gwerthuso'ch prosiect</li> <li>Gwybodaeth am eich polisiau rheoli a chynnal a chadw – naill ai fel cynllun rheoli a chynnal a chadw neu'n gynwysedig yn eich cynllun cadwraeth</li> </ul>
<b>Costau'r prosiect</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Costau manwl ar gyfer eich cyfnod datblygu</li> <li>Costau amlinellol ar gyfer eich cyfnod cyflenwi</li> <li>Ffynonellau posibl o gyllid partneriaeth ar gyfer eich cyfnod cyflenwi a/neu strategaeth codi arian ar gyfer eich cyfnod datblygu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Costau manwl ar gyfer eich cyfnod cyflenwi</li> <li>Arwydd y byddwch wedi sicrhau cyllid partneriaeth cyn i chi ddechrau eich cyfnod cyflenwi</li> </ul>



## Eich cam datblygu

Yn ystod eich cam datblygu, byddwch yn ymhelaethu ar syniadau eich prosiect. Bydd y gwaith y byddwch yn ei wneud yn ystod eich cam datblygu yn ddibynol ar eich prosiect ond mae'n debygol o gynnwys ymgynghori â phobl y tu allan i'ch sefydliad, gweithgareddau i gryfhau eich sefydliad (fel adolygiad llywodraethol, adolygiad o gynllun busnes eich sefydliad), cynlluniau a dyluniadau manwl, a chynnal arolygon.

## Adolygiad o'r cam datblygu

Byddwn yn adolygu eich prosiect yn ystod y cam datblygu i weld sut rydych yn dod yn eich blaen gyda'ch cais gweithredu prosiect a'ch cynlluniau ychwanegol. O ran prosiectau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf, byddwn yn edrych ar eich cynlluniau pan fyddant yn unol â Cham 2 gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain.

### Prif nod yr adolygiad yw cadarnhau bod:

- y prosiect yn cael ei ddatblygu yn unol â'r dibenion cymeradwy a'r canlyniadau
- costau a diweddariadau cyllid partneriaeth yn dangos prosiect hyfyw
- risgiau yn hydrin
- y prosiect ar y cyfan yn cynnig gwerth da am arian o hyd neu werth gwell am arian

## Bydd y gwaith rydych yn ei wneud yn ystod eich cam datblygu yn cynnwys cynllunio a dylunio manwl.

Os bu newidiadau sylweddol, bydd yr adolygiad yn rhoi'r cyfle inni dynnu sylw at risgiau, meysydd o bryder a lle mae angen gwneud gwaith pellach.

Os oes pryderon difrifol, efallai y bydd eich prosiect yn methu adolygiad y cyfnod datblygu a byddwn yn argymhell na fyddwch yn gwneud cais am gyfnod gweithredu prosiect.

## Er mwyn helpu i gynllunio eich cam datblygu, dyma rai tasgau allweddol y bydd angen i chi eu cwblhau:

1. Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf i'r tir neu adeiladau, dylech barhau i weithio drwy'r broses cynllunio cadwraeth, gan fireinio eich dealltwriaeth o'ch treftadaeth a'r cyfleoedd i rannu eich treftadaeth ag eraill fel y bydd eich prosiect yn manteisio i'r eithaf ar ei botensial wrth fynd i'r afael ag unrhyw risgiau a bygythiadau rydych wedi'u nodi. Bydd gofyn i chi rannu eich cynllun cadwraeth drafft gyda ni yn ystod y cam datblygu.

2. Ar gyfer unrhyw waith cyfalaf i adeiladau, dylech ymgymryd ag unrhyw **arolygon, ymgynghoriadau** neu **ymchwiliadau** sydd eu hangen er mwyn datblygu eich cynlluniau a'ch cynigion manwl – er enghraifft, archwiliad mynediad neu asesiad o berfformiad amgylcheddol cyfredol eich adeilad. Ystyriwch a oes unrhyw faterion cyfreithiol sy'n ymwneud â pherchnogaeth tir neu eiddo sydd angen i chi eu datrys er mwyn sicrhau eich bod yn bodloni ein gofynion yn yr cyfnod gweithredu prosiect.
3. Ymgynghorwch â chynulleidfaoedd newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes er mwyn datblygu rhaglen fanwl o weithgareddau i ddangos sut byddwch yn bodloni'r canlyniad 'bydd ystod ehangach o bobl yn ymgysylltu â'r dreftadaeth'. Bydd hyn yn ffurfio eich **cynllun gweithgarwch neu gynllun gweithredu ardal**.
4. Datblygwch **amserlen, costau a llif arian manwl** ar gyfer eich cam datblygu.
5. Ystyriwch mewn manylder sut bydd eich prosiect yn cael **effaith ar eich sefydliad** a sut byddwch yn rheoli'r newid hwn. Mae'n bosibl y bydd angen i chi gynnal adolygiad llywodraethol a diweddaru cynllun busnes eich sefydliad a'r strategaeth codi arian.
6. Ystyriwch sut byddwch yn **cynnal canlyniadau'r prosiect** ar ôl i'r cyllid ddod i ben, a sut byddwch yn bodloni unrhyw gostau rhedeg ychwanegol. Os ydych yn creu cynllun rheoli a chynnal a chadw, bydd yr wybodaeth hon yn bwydo i mewn i hyn a chynllun busnes diweddaredig eich sefydliad.
7. Ystyriwch sut byddwch yn **gwerthuso eich prosiect**, a chasglu data gwaelodlin fel y gallwch fesur y gwahaniaeth mae'ch prosiect yn ei wneud.
8. Ystyriwch sut byddwch yn **prynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau** yn ystod eich cyfnod cyflenwi. Bydd angen i chi gyfeirio at **ein canllawiau caffael** [\[link\]](#).
9. Ystyriwch sut y byddwch yn **cydnabod ein grant** [\[link\]](#) **ac yn hyrwyddo rôl chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wrth gefnogi eich prosiect**.
10. Dylech ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i lunio'r holl **ddogfennau ategol perthnasol** ar gyfer eich cais gweithredu prosiect.

# Dogfennau ategol

**Bydd angen ichi gyflwyno'r dogfennau ategol perthnasol o'r adran hon gyda'ch cais ar-lein a rhaid i ni eu derbyn erbyn y dyddiad cau cyhoeddus ar gyfer ymgeisio.**

Mae'r rhestr hon yn cynnwys y dogfennau ategol ar gyfer y cais cam datblygu a'r cais cam gweithredu prosiect.

Ni fydd rhai o'r dogfennau yn berthnasol i'ch prosiect a bydd yr wybodaeth ychwanegol yn y tabl hwn yn eich helpu i benderfynu a ydynt yn berthnasol.

Mae popeth sydd ei angen arnom i asesu eich cais yn cael ei gynnwys yn y ffurflen gais a'r dogfennau ategol canlynol. Peidiwch â chyflwyno unrhyw ddogfennau ychwanegol, oherwydd ni fyddwn yn eu defnyddio wrth asesu eich cais.

## Dogfennau ategol y cyfnod datblygu

### 1. Dogfen lywodraethu (er enghraifft, cyfansoddiad)

**Nid oes angen i ni weld eich dogfen lywodraethu os:**

- ydych yn sefydliad cyhoeddus (er enghraifft, awdurdod lleol)


### Dylai'ch dogfen lywodraethu gynnwys y canlynol:

- enwau ac amcanion eich sefydliad
- datganiad sy'n rhwystro eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i'w aelodau yn ystod ei oes

- datganiad sy'n cadarnhau, os bydd eich sefydliad yn cael ei gau neu'n dod i ben, y bydd asedau'r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusennol neu ddielw arall ac nid i aelodau'r sefydliad
- y dyddiad pan gafodd ei fabwysiadu a llofnod eich cadeirydd (neu unigolyn awdurdodedig arall)

**Nid ydym yn gallu derbyn eich cais os nad yw eich cyfansoddiad yn cynnwys yr uchod.**

Sicrhewch fod eich prosiect yn diwallu amcanion eich sefydliad.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu **arweiniad**  ar greu dogfen lywodraethu.

### 2. Cyfrifon y tair blynedd diwethaf a chyfrifon rheoli'r flwyddyn bresennol.

Mae cyfrifon a archwiliwyd yn cael eu harchwilio'n annibynnol a dylent gael eu cymeradwyo bob blwyddyn. Hoffem weld eich cyfrifon rheoli yn ogystal.

Os ydych yn sefydliad sydd newydd gael ei ffurfio ac nad oes gennych set o gyfrifon a archwiliwyd, cyflwynwch eich tair cyfriflen ddiweddaraf neu lythyr oddi wrth eich banc i gadarnhau eich bod wedi agor cyfrif.

Nid oes angen eich cyfrifon arnom os ydych chi'n sefydliad cyhoeddus (er enghraifft, awdurdod lleol).

### 3. Dadansoddiad manwl o'r gost

Daenlen sy'n rhoi manylion dadansoddiad y gost wedi'i darparu yn Adran Chwech: costau prosiect y ffurflen gais ar-lein.

**Mae'r ddogfen hon yn orfodol ar gyfer pob ymgeisydd.**

### 4. Cytundebau partneriaeth (os yn berthnasol)

Os ydych yn bwriadu gweithio gyda sefydliad arall i weithredu eich prosiect, mae'n arfer da cael cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r ddau bartner a dylid ei llofnodi gan bob parti.

Bydd ond angen i chi ddarparu eich cytundeb partneriaeth os bydd eich sefydliad partner yn derbyn taliadau grant i gyflenwi rhan o'ch prosiect.

### 5. Swydd-ddisgrifiadau (os yn berthnasol)

Os ydych yn bwriadu cyflogi aelod newydd o staff i helpu cyflenwi cyfnod datblygu eich prosiect, gan gynnwys prentis, cyflwynwch swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd honno.

## 6. Briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynwyd yn fewnol neu'n allanol (os yn berthnasol)

Mae briffiau yn disgrifio unrhyw waith yr ydych yn bwriadu ei gomisiynu yn ystod eich cyfnod datblygu. Os ydych yn comisiynu gwaith (er enghraifft, gan artist neu bensaer), dylech gyflwyno briff.

Dylai'r briff ddisgrifio'r gwaith, faint fydd yn cymryd i'w wneud, faint fydd yn ei gostio a'r sgiliau gofynnol. Cewch ddod o hyd i dempled briff ar ein gwefan.

Ar gyfer ffioedd dros £10,000, dylech gael afael ar dri thendr neu ddyfynbris cystadleuol; ar gyfer ffioedd dros £50,000, byddwn yn eich disgwyl i ddarparu tystiolaeth o'r broses dendro gystadleuol.

## 7. Delweddau (chwech ar y mwyaf)

Darparwch ddelweddau sy'n helpu i roi darlun o'ch prosiect. Bydd y delweddau hyn yn cael eu cyflwyno i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ac felly y dylent fod o ansawdd uchel ac yn berthnasol i'ch prosiect.

**Mae briffiau yn disgrifio unrhyw waith yr ydych yn bwriadu ei gomisiynu yn ystod eich cyfnod datblygu**

**Cyflwynwch llythyrau sy'n datgan cefnogaeth oddi wrth bobl sy'n ymwneud â'ch prosiect, yn hytrach na datganiadau cefnogol cyffredinol.**

## 8. Llythyrau sy'n datgan cefnogaeth (chwech ar y mwyaf, os yn berthnasol)

Mae llythyrau sy'n datgan cefnogaeth yn ffordd dda o ddangos i ni eich bod wedi siarad gyda phobl eraill a'u bod â diddordeb yn eich prosiect ac ymroddedig iddo.

Cyflwynwch llythyrau sy'n datgan cefnogaeth oddi wrth bobl sy'n ymwneud â'ch prosiect, yn hytrach na datganiadau cefnogol cyffredinol. Er enghraifft, os oes gennych fwriad i gyflwyno gweithdai mewn cartref gofal lleol yna byddai llythyr sy'n datgan cefnogaeth yn dangos i ni fod y cartref hwn am gymryd rhan.

Os yn bosibl, dylai llythyrau cael eu hysgrifennu ar bapur â phennawd a'u llofnodi.

## 9. Cyfrifiad adennill costau llawn ar gyfer y cyfnod datblygu (os yn berthnasol)

Os ydych yn cynnwys adennill costau llawn yng nghyllideb eich prosiect, mae'n rhaid i chi gynnwys dogfen sy'n amlinellu'ch cyfrifiad.

Cewch hyd i daenlen i'ch helpu i gyfrifo'r ffigur hwn ar ein [gwefan](#).

## 10. Cynllun busnes

Hoffem weld gopi o gynllun busnes cyfredol eich sefydliad. Os nad oes gennych gynllun busnes, cyflwynwch y ddogfen gynllunio yr ydych yn ei defnyddio er mwyn rheoli eich treftadaeth. Os ydych yn sefydliad sy'n rheoli aml-safleoedd neu'n sefydliad fel awdurdod lleol, cyflwynwch y dogfennau cynllunio sy'n fwyaf addas i'r dreftadaeth yn eich cais.

Mae eich cynllun busnes yn orfodol ar gyfer pob ymgeisydd.

**Os ydych yn cynnwys adennill costau llawn yng nghyllideb eich prosiect, mae'n rhaid i chi gynnwys dogfen sy'n amlinellu'ch cyfrifiad.**

## 11. Arolwg cyflwr (os yn berthnasol)

Os yw'ch prosiect yn cynnwys cadwraeth treftadaeth, mae'n rhaid i chi ddarparu arolwg cyflwr neu ddogfen briodol arall megis cynllun cadwraeth drafft neu amlinellol. Dylai'r ddogfen hon ein hysbysu o gyflwr cyfredol y dreftadaeth a'r gwaith sydd ei angen i ddychwelyd treftadaeth i gyflwr da.

Er enghraifft, os ydych yn bwriadu gwarchod cofeb rhyfel leol, yna bydd angen i chi wybod ei chyflwr presennol a pha waith trwsio fydd angen ei wneud. Dylai'r arolwg neu adroddiad hefyd ddangos blaenoriaeth gymharol y gwaith arfaethedig – hynny yw, pa waith sydd fwyaf allweddol ac sydd angen ei wneud ar frys.

## 12. Dogfennau perchenogaeth (os yn berthnasol)

Os oes gennych fwriad i gynnal gwaith cyfalaf, neu os ydych yn bwriadu prynu tir/adeiladau/casgliadau, darparwch gopiâu o ddogfennau perchenogaeth y Gofrestrfa Tir ac, mewn achos eiddo lesddaliadol, unrhyw brydles, penawdau telerau neu brydles ddrafft.

Os nad ydych chi'n bodloni ein gofynion perchenogaeth yn y rownd gyntaf, rhwch wybod i ni ynglŷn â sut y byddwch yn bwriadu mynd i'r afael â hyn yn ystod eich cyfnod datblygu.

Dylech atodi'r dogfennau ategol perthnasol i'ch ffurflen gais. Gallwn dderbyn y mwyafrif o fformatau ffeil safonol.

Wrth gyflwyno dogfennau ategol, defnyddiwch enwau'r dogfennau uchod fel ein bod yn gallu adnabod pob dogfen yn hawdd. Efallai y bydd peidio â defnyddio'r fformat hwn yn oedi'ch cais.

**Ni fyddwn yn dechrau asesu eich cais nes eich bod yn cyflwyno'r holl ddogfennaeth ategol berthnasol.**

### Dogfennau ategol y cyfnod gweithredu prosiect

- Cynllun gweithgarwch neu gynllun gweithredu ardal
- Amserlen prosiect
- Llif arian ar gyfer y prosiect
- Incwm a rhagolygon gwario hyd at bum mlynedd ar ôl cwblhau'r gwaith
- Strwythur rheoli'r prosiect
- Taenlen yn rhoi manylion y dadansoddiad o gost
- Cyfrifiad ar gyfer Adennill Costau Llawn (os yn berthnasol)
- Briffiau ar gyfer gwaith wedi'i gomisiynu'n fewnol ac yn allanol
- Swydd-ddisgrifiadau ar gyfer y cyfnod cyflenwi
- Cynllun busnes (wedi'i ddiweddarau)
- Delweddau

- Siart lif yn crynhoi penderfyniadau ar gyfer grantiau trydydd parti (os yn berthnasol)
- Cynllun rheoli a chynnal a chadw (os yn berthnasol)
- Manyldeb y dyluniad (os yn berthnasol)
- Cynllun dehongli (os yn berthnasol)
- Cynllun cadwraeth wedi'i ddatblygu'n llawn (os yn berthnasol)

**Wrth gyflwyno dogfennau ategol, defnyddiwch enwau'r dogfennau a restrir yn yr adran hon fel ein bod yn gallu adnabod pob dogfen yn hawdd.**

# Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi wneud cais?

## Os bydd eich cais yn llwyddiannus:

Byddwn yn cysylltu â chi ynghylch trefnu cyfarfod cychwynnol. Efallai y byddwch yn cael eich cyflwyno i ymgynghorydd yn y cyfarfod hwn, a fydd yn eich cefnogi wrth ddatblygu neu gyflawni agweddau penodol o'ch prosiect, neu'n eich helpu i adolygu risgiau. Byddwn yn adolygu eich prosiect ar adegau addas.

Mae'n rhaid i chi aros i dderbyn caniatâd oddi wrthym cyn y gallwch ddechrau eich prosiect. Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen ar-lein i ni, gan ddarparu:

- eich manylion cyfrif banc (gorfodol)
- prawf o berchenogaeth/gofynion prydles (ar gyfer pob prosiect cyfalaf, os bu unrhyw newidiadau ers gwneud y cais)
- manylion ynghylch caniatadau statudol a/neu drwyddedau gofynnol ac a gafwyd (os yn berthnasol)

- cadarnhad o arian partneriaeth (os yn berthnasol)
- rhagolwg llif arian y prosiect
- strwythur rheoli'r prosiect a dulliau ar gyfer dewis ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr
- amserlen prosiect neu raglen waith

Bydd angen cyfrif banc ar eich sefydliad. Dylai'r enw ar y cyfrif banc hwn gyd-fynd yn llwyr ag enw'r sefydliad sy'n gwneud y cais.

**Ar gyfer grantiau datblygu sy'n llai na £100,000**, rydym yn talu eich grant mewn tri rhandaliad.

1. Byddwn yn rhoi 50% o'r grant i chi ymlaen llaw.
2. Pan fyddwch wedi gwario hanner cyntaf cyfanswm eich costau prosiect cymwys, byddwn yn rhoi'r 40% nesaf i chi.

3. Byddwn yn talu 10% olaf eich grant pan fyddwch wedi cwblhau eich cyfnod datblygu.

**Ar gyfer grantiau datblygu a chyflenwi gwerth £100,000 neu fwy**, byddwn yn talu rhandaliadau o'n grant unwaith y bydd y gwaith yr ydych yn gofyn inni dalu amdano wedi'i gwblhau. Byddwn hefyd yn cadw nôl 10% o'ch grant nes byddwn yn fodlon fod y prosiect wedi'i gwblhau a'ch bod wedi cyflwyno eich adroddiad cwblhau a gwerthusiad.

## Canran y taliad

Byddwch chi neu sefydliad arall yn cyfrannu at eich prosiect ac felly byddwn yn rhoi canran o gostau'r prosiect i chi. Rydym yn disgrifio'r ganran hon fel 'canran y taliad'.

### Dyma enghraifft, lle mae canran y taliad yn 90%:

Cyfanswm costau'r prosiect	£50,000
Eich cyfraniad arian parod	£5,000
Eich grant	£45,000
Canran y taliad	90%

Byddwn yn eich talu 'canran y taliad' o gyfanswm yr hyn y byddwch yn ei wario ar y prosiect.

- Os byddwch yn gwario llai ar y prosiect nag oeddech yn ei ddisgwyl, yna ni fyddwn yn talu'r grant yn llawn i chi
- Os byddwch yn gwario mwy ar y prosiect nag oeddech yn ei ddisgwyl, yna ni fyddwn yn gallu rhoi mwy i chi na'r grant a roddwyd gennym i chi

### Dyma enghraifft, lle'r oedd y cyfanswm a wariwyd ar y prosiect yn llai na'r disgwyl.

Cyfanswm costau'r prosiect yn y ffurflen gais	£50,000
Canran y taliad	90%
Y cyfanswm a wariwyd ar y prosiect	£45,000
Cyfanswm y taliad yr ydym ni yn ei dalu	£40,500 (90% o £45,000)

## Adrodd

Byddwn yn eich disgwyl i adrodd ar gynnydd eich prosiect o leiaf bob tro y byddwch yn gwneud cais am ôl-daliad. Bydd angen i chi ddarparu adroddiad ar gynnydd o leiaf bob chwarter, gan gynnwys pan fyddwch yn cwblhau eich prosiect, ochr yn ochr â'ch adroddiad gwerthuso.

Byddwn yn disgwyl gweld tystiolaeth o gyflenwi a gwariant, megis lluniau, adroddiadau, anfonebau a derbynebau. Ceir mwy o fanylion ar ein proses fonitro yn y ddogfen **'Derbyn grant'** [↗](#) ar ein **gwefan** [↗](#).

## Telerau'r grant

Byddwn yn gofyn i chi gytuno i'n **telerau grant safonol** [↗](#), y gallwch ddod o hyd iddynt ar ein gwefan.

Mae hyd telerau'r grant yn ddibynnol ar y math o brosiect ydyw.

## Byddant yn para o ddyddiad y caniatâd i ddechrau nes:

- **Gweithgaredd:** y dyddiad y mae'r prosiect yn gorffen (a elwir yn ddyddiad cwblhau'r prosiect)
- **Cyfalaf:** 20 mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- **Digidol:** 20 mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect

- **Caffaeliad:** Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem dreftadaeth, tir neu adeilad, bydd telerau'r grant yn para'n ddiderfyn. Os hoffech gael gwared ar bethau rydych chi wedi eu prynu yn y dyfodol, mae'n rhaid i chi ofyn am ein caniatâd ac efallai y byddwn yn hawlio'r grant cyfan neu ran ohono yn ôl.

## Os yw'ch cais yn aflwyddiannus:

Mae'r broses asesu'n gystadleuol ac ni allwn gyllido'r holl geisiadau sydd o ansawdd da yr ydym yn eu derbyn. Os yw'ch cais yn aflwyddiannus, efallai y byddwn yn awgrymu eich bod yn gwneud cais arall ond bydd rhaid i chi drafod hwn gyda ni cyn ymgeisio unwaith eto.

## Gofynion cyfreithiol a pholisi

### Perchenogaeth

Rydym yn disgwyl eich bod yn berchen ar unrhyw eiddo (tir, adeiladau, eitemau treftadaeth neu eiddo deallusol) yr ydych chi'n gwario eich grant arno. Os na fyddwch yn bodloni ein gofynion perchenogaeth, bydd angen i chi wella eich hawliau yn y cyfnod datblygu (er enghraifft, trwy newid neu ehangu prydles) neu gynnwys y perchennog fel cyd-ymgeisydd yn eich cais, os yn berthnasol.

## Tir ac adeiladau

### Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gwaith ar dir ac adeiladau, mae'n rhaid eich bod yn berchen ar y rhyddfrait neu fod gennych brydles sy'n bodloni ein gofynion:

- ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gwaith ar adeilad neu dir, os nad eich sefydliad yn berchen ar y rhydd-ddaliad, bydd angen prydles arnoch ag o leiaf 20 mlynedd yn weddill arni ar ôl y dyddiad disgwylidig i'ch prosiect ddod i ben.
- os yw eich prosiect yn ymwneud â phrynu tir neu adeiladau, rhaid i chi eu prynu'n rhydd-ddaliadol neu gyda phrydles sydd ag o leiaf 99 mlynedd yn weddill arni.
- nid ydym yn derbyn prydles i chymalau terfynu (sy'n rhoi'r hawl i un parti neu fwy i'r brydles derfynu'r brydles mewn amgylchiadau penodol).
- nid ydym yn derbyn prydles i chymalau fforffediad mewn achosion o ansolfedd (sy'n rhoi'r hawl i'r landlord derfynu'r brydles os bydd y tenant yn dod yn fethdalwr).
- rhaid eich bod yn gallu gwerthu, is-osod a morgaisio eich prydles, ond, os byddwn yn rhoi grant i chi, mae'n rhaid i chi gael ein caniatâd i wneud unrhyw rai o'r rhain.

Am arweiniad pellach ar ein gofynion ar gyfer tir y perchnogir arno gan drydydd parti, ewch i'n **gwefan**. [↗](#)

## Cymryd sicrwydd ar gyfer y grant

**Arwystl cyfreithiol:** Mae'n bolisi gennym i gymryd arwystl dros yr eiddo a ariennir gan grant os nad ydych yn gorff cyhoeddus, mae'ch prosiect yn ymwneud â gwaith cyfalaf ac mae'ch grant gwerth dros £250,000.

**Cyfyngiad ar y teitl:** Os ydych yn gorff cyhoeddus megis awdurdod lleol neu brifysgol, bydd angen i ni osod cyfyngiad ar eich teitl Cofrestrfa Tir er mwyn sicrhau eich bod yn gofyn am ein caniatâd cyn y byddwch yn dechrau ag unrhyw drafodion yn y dyfodol ynghylch yr eiddo a ariennir gan grant.

Os oes unrhyw un o'r uchod yn berthnasol i'ch prosiect, bydd angen i chi anfon manylion cyswllt eich cyfreithiwr atom cyn gynted â phosibl ar ôl i chi dderbyn eich arian cyfnod gweithredu prosiect.

### Eitemau treftadaeth

Ar gyfer prosiectau lle mae angen prynu eitemau treftadaeth neu lle mae angen gwneud gwaith cadwraeth ar eitem dreftadaeth (er enghraifft, trêrn stem neu baentiad), mae'n rhaid i chi brynu neu berchen ar yr eitem yn llwyr. Ni allwn ariannu unigolion preifat neu sefydliadau sy'n gwneud elw er mwyn iddynt allu prynu adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth.

Os ydych chi'n benthg eitem/au fel rhan o'r prosiect (er enghraifft, ar gyfer arddangosfa) a gofynnir i chi gyfrannu tuag at y gost cadwraeth, efallai y byddwn yn derbyn y gost hon gan ei bod yn rhan fach o'r prosiect.

Efallai y bydd angen i berchennog yr eitem/au fod yng nghlwm â'r cytundeb partneriaeth, neu yng nghlwm â thelerau safonol grant os yw grant yn cael ei ddyfarnu. Dylech gynnwys hyn yn eich ffurflen datganiad o ddiddordeb, os ydych yn meddwl y bydd yn berthnasol i'ch prosiect.

Os ydych yn cynllunio prosiect adeiladu cyfalaf â'r bwriad o storio neu arddangos casgliad nad ydych yn berchen arno, byddwn yn gofyn bod perchennog y casgliad yng nghlwm â thelerau safonol y grant (ac unrhyw amodau ychwanegol a

### Efallai y bydd angen i berchennog yr eitem/au fod yng nghlwm â'r cytundeb partneriaeth, neu yng nghlwm â thelerau safonol grant os yw grant yn cael ei ddyfarnu.

osodwyd allan yn y llythyr hysbysu am grant) os yw grant yn cael ei ddyfarnu. Dylech gynnwys hyn yn eich ffurflen datganiad o ddiddordeb, os ydych yn meddwl y bydd yn berthnasol i'ch prosiect.

### Allbynnau digidol

Mae gennym ofynion penodol, sydd wedi'u nodi yn ein telerau grant safonol, ar gyfer 'allbynnau digidol' a gynhyrchir fel rhan o unrhyw brosiect.

Defnyddiwn y term 'allbwn digidol' ar gyfer unrhyw beth yr ydych yn ei greu ar gyfer eich prosiect o fewn fformat digidol a gynllunnir i roi mynediad i dreftadaeth a/ neu i helpu pobl i ymgysylltu â, a dysgu am, dreftadaeth. Er enghraifft, gallai hyn olygu delweddau digidol, ffeiliau sain neu ddata, gwefan â deunydd treftadaeth, ap, rhithrealiti, neu ffilm a wnaed gan ddefnyddio technoleg ddigidol.

Nid yw'r gofynion yn berthnasol i allbynnau digidol sydd heb gynnwys treftadaeth neu nad ydynt yn ymgysylltu pobl â threftadaeth, e.e. gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'ch sefydliad/prosiect neu restr o ddigwyddiadau yn unig.

### Os byddwch yn derbyn grant gwerth mwy na £250,000, bydd rhaid i'r holl allbynnau digidol fod:

- 'yn ddefnyddiadwy' (mae'r canlyniad yn gweithredu fel y disgwylir iddo wneud ac mae'n cael ei gadw'n gyfredol) am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect
- 'ar gael' cyhyd ag y bydd telerau eich grant yn para
- yn rhad ac am ddim ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn fasnachol cyhyd ag y bydd telerau eich grant yn para
- yn drwyddedig ar gyfer defnydd gan eraill o dan drwydded Priodoliad Anfasnachol Creative Commons (CC BY-NC) cyhyd ag y mae telerau eich grant yn para, heblaw ein bod wedi cytuno fel arall

### Disgwyliwn fod gwefannau'n bodloni safon hygyrchedd A Sengl W3C o leiaf

### Disgwyliwn:

- fod gwefannau'n bodloni safon hygyrchedd A Sengl W3C o leiaf
- eich bod yn defnyddio [technolegau ffynhonnell agored](#) [\[1\]](#) lle bo modd
- eich bod yn cyfrannu allbynnau digidol at gasgliadau treftadaeth priodol. Gellir cael hyd i arweiniad ar gyfer prosiectau digidol ar ein gwefan

Gellir dod hyd i ganllaw ar prosiectau digidol ar ein [gwefan](#) [\[2\]](#)

### Os ydych yn creu allbynnau digidol:

- mae'n rhaid i chi ddarparu cynllun rheoli a chynnal a chadw gyda'ch cais gweithredu prosiect
- mae modd i chi gynnwys gwerth y costau uwch ar gyfer rheoli a chynnal a chadw am bum mlynedd yn y dyfodol fel cyllid partneriaeth

### Caffaeliad a swyddi staff

Mae'n rhaid i chi ddilyn ein canllawiau caffael. Fel trosolwg, bydd rhaid i unrhyw brosiectau sydd â nwyddau, gwaith neu wasanaethau sydd â gwerth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW) dderbyn o leiaf dri thendr/dyfnbris cystadleuol. Ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (ac eithrio TAW), rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol.

Dylai eich prawf fod ar ffurf adroddiad ar y tendrau a gawsoch, ynghyd â'ch penderfyniad o ran pa un i'w dderbyn. Rhaid i chi roi rhesymau llawn os na fyddwch yn dewis y tendr isaf. Yn ddibynnol ar natur eich prosiect, efallai y bydd gofyn i chi gydymffurfio â rheolau caffael Ewropeaidd a Rheoliadau Caffael Cyhoeddus y DU 2015.

Os yw partner ar y prosiect yn darparu nwyddau neu wasanaethau a delir amdanynt gyda'r grant, yna bydd angen i chi ddweud wrthym pam y'i dewiswyd a pham nad yw proses dendro agored yn briodol. Byddwn yn ystyried ai hon yw'r ffordd orau i gyflawni eich prosiect a byddwn yn disgwyl eich bod yn dangos gwerth am arian ac yn bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol.

Nid yw partneriaid yn iscontractwyr. Byddant yn ymgymryd â rôl ragweithiol yn y prosiect a byddant yn ymwneud â'r prosiect yn gyffredinol. Byddant yn helpu i adrodd nôl ar gynnydd, mynychu cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd a chefnogi'r gwaith o werthuso'r prosiect. Byddwn yn gofyn am weld eich cytundeb partneriaeth fel dogfen ategol gyda'ch cais.

### Bydd rhaid i chi hefyd hysbysebu'n agored pob swydd staff ar gyfer y prosiect, gyda'r eithriadau canlynol:

- bod gennych aelod o staff sydd â chymwysterau addas ar eich cyflogres yr ydych yn ei symud i swydd ar y prosiect (bydd dal angen i chi ddarparu swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd hon).
- eich bod yn cynyddu oriau aelod o staff sydd â chymwysterau addas ar eich cyflogres er mwyn iddo allu gweithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn, byddwn yn cyllido cost yr oriau ychwanegol a dreulir ar y prosiect a bydd angen i chi ddweud wrthym am ei rôl.
- os ydych yn sefydliad gwirfoddol ac rydych yn cynnwys cyfran o amser aelod o staff yn eich cyfrifiad ar gyfer adennill costau llawn.

### Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy.

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio cyfraddau'r cyflog byw (a chyfraddau cyflog byw Llundain lle bo'n briodol) ar gyfer holl staff y prosiect. Dangoswch dystiolaeth o gyllidebu ar gyfer cyfraddau cyflog byw yng nghostau eich staff a chyllidebau.

Mae'n rhaid i weithdrefnau recriwtio ymgynghorwyr a chontractwyr fod yn deg ac yn agored a chadw at y ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol.

Os ydych am gyflogi ymgynghorydd neu aelod o staff ar gyfer eich cyfnod datblygu a'ch cyfnod cyflenwi, dylech sicrhau bod ei gytundeb yn nodi'n glir mai dyma'r achos, gan ganiatáu ar gyfer cymalau terfynu (rhag ofn bod eich cais gweithredu prosiect yn aflwyddiannus). Os nad ydych, efallai y byddwn yn gofyn i chi ail-recriwtio ar ôl i benderfyniad y cyfnod gweithredu prosiect gael ei wneud.

Os nad ydych chi'n sicr am eich goblygiadau, rydym yn eich cynghori i gael cyngor proffesiynol neu gyfreithiol.

Os ydych eisoes wedi caffael nwyddau, gwaith neu wasanaethau ar gyfer y prosiect sydd yn werth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW), bydd angen i chi ddweud wrthym sut y gwnaethoch hyn. Ni allwn dalu'ch grant os nad ydych wedi dilyn y weithdrefn gywir.

### Yswirio gwaith ac eiddo

Mae angen i ni ddiogelu buddsoddiad y Loteri Genedlaethol ac felly gofynnwn i chi, ynghyd a'ch contractwyr, yswirio unrhyw eiddo, gwaith, deunyddiau a nwyddau a ddefnyddir. Mae'n rhaid i'r rhain i gyd gael eu hyswirio am eu gwerth adfer llawn rhag colled neu ddifrod, gan gynnwys chwyddiant a ffioedd proffesiynol.

Os effeithir ar eich prosiect gan dân, mell, storom neu lifogydd i'r fath raddau ni allwch gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn eich cais, efallai y bydd yn rhaid i ni ystyried hawlio ein taliadau grant yn ôl.

### Mae'n rhaid i chi ddefnyddio cyfradd cyflog byw (a chyfraddau cyflog byw Llundain lle bo'n briodol) ar gyfer holl staff y prosiect.



## Cymorth gwladwriaethol

Mae cymorth gwladwriaethol yn derm gan y Gymuned Ewropeaidd sy'n disgrifio mathau o gymorth (ariannol fel arfer) gan gorff cyhoeddus a roddir ar gyfer ymgymeriadau ar sail ddewisol gyda'r potensial i wyro cystadleuaeth a chael effaith ar fasnach rhwng aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn atal unrhyw gystadleuaeth ormodol rhag codi pan mae gan sefydliadau fantais economaidd arwyddocaol trwy gael eu cyllido'n llawn neu'n rhannol gan adnoddau gwladol ar draul sefydliadau eraill sydd ond yn gallu defnyddio eu cyllid preifat eu hunain.

Rydym yn ariannwr cyhoeddus ac mae ein grantiau yn ddarostyngedig i reolau cymorth gwladwriaethol. Pe byddem yn dyfarnu grant a chanfyddid yn ddiweddarach ei fod yn torri rheolau cymorth gwladwriaethol, byddai'n ofynnol i ni adennill yr arian hwnnw o dderbynnydd y grant.

### Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw prosiectau sy'n cael cymorth gennym yn cyfrif fel cymorth gwladwriaethol gan:

- nad ydynt yn cael eu hystyried i fod yn weithgaredd economaidd; a/neu
- eu bod yn cael eu hystyried yn annetholus gan mai'r prif fuddiolwr yw'r cyhoedd; a/neu
- na fyddent yn cael effaith fesuradwy ar fasnach fewnol yr UE


Nid ystyrir y prosiectau hyn fel cymorth gan eu bod yn dod o dan yr Hysbysiad ar y Syniad o Gymorth Gwladwriaethol (NoSA).

Rydym yn ariannu caffael tir a phrosiectau treftadaeth naturiol. Nid ystyrir y rhain fel arfer yn gymorth gan fod eu prif amcan fel arfer yn ymwneud â chadwraeth a/neu adfer tirweddau, cynefinoedd a rhywogaethau er budd bioamrywiaeth.

**Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwirio a oes angen cliriad o ran cymorth gwladwriaethol.**

Mewn rhai achosion lle ceir prosiectau ar raddfa sylweddol fawr, economaidd eu natur, ac felly lle y gellid denu her fasnachol, mae Erthygl 53 o Reoliad Eithriad Bloc Cyffredinol 2014 (CE) Rhif 651/2014 (GBER) yn caniatáu cymorth tuag at gostau cyfalaf prosiect diwylliannol neu dreftadaeth o hyd at €100 miliwn a chostau gweithredol hyd at €50 miliwn yn ddarostyngedig i ddangos bylchau ariannu addas ym mhob achos. Gellir cefnogi'r prosiectau hyn o dan eithriad bloc.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwirio a oes angen cliriad o ran cymorth gwladwriaethol. Dylai ymgeiswyr geisio cyngor cyfreithiol annibynnol os nad ydynt yn sicr a fydd angen caniatâd ar gyfer prosiect.

**I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â chymorth gwladwriaethol, ewch i:**  
[www.gov.uk/guidance/state-aid](http://www.gov.uk/guidance/state-aid) 

# Gwybodaeth ychwanegol

**Mae'r adran cyllidebu ac adrodd ar werthuso isod yn berthnasol ar gyfer pob prosiect. Dylech hefyd ddarllen yr adrannau canlynol os ydynt yn berthnasol i'ch prosiect:**

[Prynu tir ac adeiladau](#)

[Prynu eitemau a chasgliadau treftadaeth](#)

[Prosiectau yn cynnwys tir, cynefinoedd a rhywogaethau](#)

[Gofynion perchnogaeth ar gyfer grantiau cymunedol](#)

## Cyllidebu ac adrodd ar werthuso

**Rydym yn argymhell cyllidebu ar gyfer gwerthuso yn y ffyrdd canlynol:**

- Dylai prosiectau rhwng £250,000 ac £1 miliwn ganiatáu cyllideb o rhwng 2% a 7% o gyfanswm eu costau prosiect ac ystyried defnyddio gwerthuswyr annibynnol allanol. Ni ddylai cyllidebau gwerthuso ar gyfer prosiectau o fewn y raddfa hon fod yn llai na'r isafswm a ganiateir. Er enghraifft, os yw prosiect yn gwneud cais am gyllid o £255,000, byddem yn disgwyl bod isafswm o £5,100 (2%) yn cael ei ddyrannu ar gyfer y gwerthusiad, oni bai y darperir tystiolaeth ym mhennawd cost adran disgrifiad y gwerthusiad nad oes angen y lefel hon o adnoddau neu nad yw'n briodol.
- Dylai prosiectau sydd dros £1 miliwn ganiatáu cyllideb o hyd at 7% o gyfanswm costau'r prosiect, gan ystyried defnyddio gwerthuswyr annibynnol allanol bob tro. Ni ddylai cyllidebau gwerthuso ar gyfer prosiectau gwerth dros £1 miliwn

fod yn llai na £20,000 oni bai y darperir tystiolaeth ym mhennawd cost adran disgrifiad y gwerthusiad nad oes angen y lefel hon o adnoddau neu nad yw'n briodol.

1. Mae'n rhaid i chi anfon adroddiad gwerthuso atom cyn y byddwn yn talu 10% olaf eich grant i chi. Ein nod yw ariannu prosiectau sy'n creu newid cadarnhaol a pharhaol ar gyfer pobl a chymunedau. Mae gofyn i'n prosiectau gyflwyno adroddiadau gwerthuso yn ein galluogi i arddangos y gwahaniaeth hwnnw ac i wybod a yw prosiect wedi gwario'i arian yn briodol ac wedi cyflawni'r canlyniadau a ddymunwyd. Rydym yn adrodd ar y cyflawniadau hyn drwy werthuso rhaglenni'n barhaus, sy'n ddibynnol ar wybodaeth oddi wrth hunanwerthusiadau ar lefel prosiectau.
2. Byddwn yn anfon holiadur gwerthuso atoch o fewn un flwyddyn ar ôl i chi gwblhau eich prosiect. Bydd yr holiadur yn gofyn am wybodaeth am nifer y gweithgareddau a gynhaliwyd, nifer y cyfranogwyr a (lle bo hynny'n briodol) nifer yr ymwelwyr yr ydych wedi

**Byddwn yn anfon holiadur gwerthuso atoch o fewn un flwyddyn ar ôl i chi gwblhau eich prosiect.**

ymgysylltu â hwy, faint o hyfforddiant a chyfranogiad gwirfoddolwyr oedd angen ar eich prosiect, ac unrhyw staff ychwanegol yr ydych wedi cyflogi. Ar gyfer yr holl 'allbynnau' hyn yn eich prosiect, bydd gennym ddi-ddordeb yn y mathau o bobl sydd wedi elwa yn ogystal â'r niferoedd cyffredinol. Ar gyfer gweithiau mwy sy'n cynnwys gwaith cyfalaf, byddwn yn gofyn am rywfaint o'r wybodaeth hon eto, pum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect a deng mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

Mae holiadur gwerthuso wedi'i gynnwys ar y dudalen nesaf sy'n rhoi amlinelliad i chi o'r data y bydd angen i chi ei gasglu yn ystod eich prosiect.

Ni fydd y niferoedd hyn, ar wahân, yn dweud yr holl stori am ystyr eich prosiect, a bydd angen i'ch adroddiad gwerthuso ddweud wrthym am ansawdd eich prosiect yn ogystal.

## Holiadur gwerthuso

Amlinellir y wybodaeth feintiol yr ydym yn disgwyl i chi ei chasglu ar gyfer eich holiadur gwerthuso isod. Ar gyfer ymwelwyr, gwirfoddolwyr, hyfforddeion a staff, rydym hefyd yn gofyn am fanylion demograffig o ran rhyw, oedran, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a dosbarth cymdeithasol.

### 1. Gweithgareddau

**Byddwn am i chi ddweud wrthym faint o weithgareddau a gynhaliwyd gan ddefnyddio'ch grant. Dyma'r gweithgareddau yr ydym yn eu rhestru:**

- **Diwrnodau agored:** diwrnodau lle'r ydych yn agor safle treftadaeth, casgliad neu nodwedd i'r cyhoedd, na ellir ymweld ag ef/hi yn arferol. Gellir hefyd cynnwys diwrnodau pan nad ydych yn codi tâl ar gyfer atyniadau sydd yn codi tâl mynediad yn arferol.
- **Gwyliau:** rhaglenni digwyddiadau neu weithgareddau ar gyfer y cyhoedd, sy'n para diwrnod neu fwy, â thema neu ffofocs sydd wedi'i ddiffinio'n glir.
- **Arddangosiadau ac arddangosfeydd dros dro:** arddangosiadau neu arddangosfeydd nad ydynt yn nodwedd parhaol ar eich safle ac sy'n para am lai na 12 mis.

- **Teithiau tywys neu deithiau cerdded:** gellir tywys y rhain gan naill ai'ch staff neu gan bobl y tu allan i'ch sefydliad, ond mae'n rhaid iddynt gael eu cynnal ar eich safle treftadaeth neu nodwedd.
- **Ymweliadau gan ysgolion a cholegau:** gellir cynnwys ymweliadau gan ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lefelau addysg uwch ymysg y rhain.
- **Sesiynau allgymorth mewn ysgolion a cholegau:** ymweliadau a wneir gan eich staff neu'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda chi ar y prosiect.
- **Gweithgareddau eraill ar y safle:** gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar eich safle nad ydych yn credu eu bod yn cael eu cynnwys o dan benawdau eraill.
- **Gweithgareddau allgymorth eraill neu weithgareddau eraill y cynhelir oddi ar y safle:** gweithgareddau sydd wedi cael eu cynnal oddi ar y safle y teimlwhch nad ydych wedi gallu dweud wrthym amdanynt.

**Gofynnwn i chi wahaniaethu rhwng hyfforddiant ar gyfer eich staff a hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr.**

### 2. Ymweliadau

Data ynglŷn â nifer y bobl a wnaeth ymweld â'ch atyniad y flwyddyn cyn dechreuodd eich prosiect a'r flwyddyn ar ôl iddo gael ei gwblhau. Os yw'r atyniad neu gyfleuster yr ariennir gennym ni yn rhan o atyniad mwy (er enghraifft, os ydym yn ariannu oriel o fewn amgueddfa fwy), rydym ond eisïau cael y niferoedd ymwelwyr gennych ar gyfer y rhan o'r atyniad neu gyfleuster yr ydym yn ei hariannu.

### 3. Gwirfoddolwyr

Nifer y gwirfoddolwyr sy'n gysylltiedig â'r prosiect a ariennir a nifer yr oriau gwirfoddol y gwnaethant eu cyfrannu.

### 4. Hyfforddiant

Nifer y bobl a gafodd eu hyfforddi drwy'r prosiect, o dan gyfres o benawdau sgiliau sy'n cwmpasu cadwraeth, ymgysylltu â chynulleidfaoedd a rheoli. Mae hyfforddiant yn cynnwys unrhyw raglen strwythuredig o hyfforddi mewn swydd, rhannu sgiliau, dysgu yn y gwaith a phrofiad gwaith. Gofynnwn i chi wahaniaethu rhwng hyfforddiant ar gyfer eich staff a hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr.

### 5. Staff newydd

Nifer y swyddi staff newydd a grëwyd i gyflawni'ch prosiect, a nifer y rhain sy'n cael eu cynnal o hyd ar ôl cwblhau'r prosiect.

### Prynu tir ac adeiladau

Gallwn ariannu prosiectau sy'n ymwneud â phrynu tir a/neu adeiladau sy'n bwysig i'n treftadaeth ac sy'n cael eu gwerthu ar bris y farchnad neu'n islaw'r pris hwn. Mae'n rhaid i'r prif resymau dros brynu ymwneud â mantais wrth reoli'r dreftadaeth dros y tymor hir a mynediad i'r cyhoedd.

Os ydych eisoes yn rheoli'r tir a/neu'r adeiladau yr ydych yn dymuno eu prynu, bydd angen i chi ddangos i ni pa fuddiannau ychwanegol a fydd yn cael eu darparu trwy eu prynu.

Bydd angen i chi ddangos i ni fod pob opsiwn wedi'i archwilio ar gyfer cael hyd i gytundeb rheoli priodol â pherchennog y rhydd-ddaliad cyn ceisio am grant i'w brynu.

### Gallwn eich helpu i brynu tir a/neu adeiladau os gallwch ddangos yn eich ffurflen gais y bydd:

- unrhyw risg i'w cadwraeth yn cael ei lleihau am eich bod yn eu prynu;
- y pris yn adlewyrchiad teg o'r cyflwr a'r gwerth;
- prynu'r eiddo yn cyfrannu at fwy o bobl yn ymgysylltu â'r dreftadaeth;
- gennych gynlluniau digonol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw dros gyfnod o ddeng mlynedd o leiaf ar ôl cwblhau'r prosiect;
- modd i chi ddangos eu harwyddocâd ar gyfer treftadaeth leol, ranbarthol neu genedlaethol.

Ni fyddwn yn cefnogi prynu eiddo y teimlwn ei fod yn cael ei werthu ar bris sy'n uwch na'r gwerth marchnadol. Os byddwn yn rhoi grant i chi, efallai y bydd angen arwystl ar y tir a/neu'r adeiladau. Gallwn ariannu pob math o gostau prynu megis ffioedd asiant, ffioedd yr ystafell werthu a threthi. Sicrhewch fod y rhain wedi'u hystyried yn eich tabl costau.

Os yw eich prosiect yn cynnwys **prynu eitem dreftadaeth, tir neu adeilad**, bydd telerau'r grant yn para'n ddiderfyn. Os ydych yn dymuno cael gwared â'r hyn yr ydych wedi ei brynu yn y dyfodol, gallwch ofyn am ein caniatâd. Efallai y byddwn yn hawlio ein grant yn ôl.

### Y wybodaeth sydd ei hangen arnom ynglŷn â'r pryniant

#### Gyda'ch cais gweithredu prosiect, bydd angen i chi ddarparu:

- cynllun lleoliad i raddfa, sy'n nodi'n glir maint y tir neu'r adeilad bydd yn cael ei brynu ac unrhyw fynediad perthnasol i'r tir a'r adeilad
- prisiad annibynnol. Dylai hwn gynnwys esboniad manwl ynglŷn â sut y cafwyd y gwerth marchnadol. Rydym yn croesawu prisiadau gan y Prisiwr Dosbarth. Efallai y byddwn hefyd yn trefnu ein prisiad ein hunain. Yn arferol, byddwn yn barod i gefnogi prynu am bris sydd hyd at 10% yn uwch nag unrhyw amrediad mewn prisiad a dderbynnir
- tystiolaeth mai'r perchnogion presennol yw'r perchnogion (bod ganddynt deitl cyfreithiol) a bod ganddynt yr hawl i werthu'r tir a/neu'r adeilad ac i drosglwyddo'r teitl i'r perchennog newydd
- tystiolaeth o unrhyw gyfamodau cyfreithiol neu hawliau (megis pysgota, saethu, mwynau, draenio), neu denantiaethau hirdymor neu fyrdymor, neu hawliau tramwy neu fynediad, neu unrhyw fuddiannau eraill sydd yn gysylltiedig â'r tir neu'r adeilad

### Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem dreftadaeth, tir neu adeilad, bydd telerau'r grant yn para'n ddiderfyn

#### Prynu eitemau treftadaeth a chasgliadau

Gallwn ariannu prosiectau sy'n ymwneud â phrynu eitemau treftadaeth neu gasgliadau sy'n bwysig i'n treftadaeth ac sydd yn cyfrannu at gyflawni ein canlyniadau.

#### Byddwn ond yn helpu i brynu eitemau neu gasgliadau os gallwch ddangos yn eich ffurflen gais y bydd:

- risgiau i'w dyfodol hirdymor yn cael eu lleihau os ydych yn eu prynu
- y pris yn adlewyrchiad teg o'u cyflwr a'u gwerth
- y pryniant yn unol â'ch polisi casglu
- yr eitemau yn hygyrch i'r cyhoedd unwaith y maent wedi'u prynu
- gennych gynlluniau digonol i ofalu amdanynt a'u cynnal a'u cadw

Byddwn yn helpu i brynu gwaith celf, archifau, gwrthrychau a chasgliadau eraill sy'n bwysig i'r dreftadaeth ac a grëwyd dros ddeng mlynedd yn ôl. Byddwn hefyd yn rhoi arian i brynu eitemau mwy diweddar o bwys treftadaeth, ond dim ond os ydynt yn rhan o gasgliad mwy sy'n fwy na deng mlynedd oed.

Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem dreftadaeth, tir neu adeilad, bydd telerau'r grant yn para'n ddiderfyn. Efallai y bydd angen i ni gymryd arwystl ar yr eitem(au). Os ydych yn dymuno cael gwared â'r hyn yr ydych wedi ei brynu yn y dyfodol, gallwch ofyn am ein caniatâd, ac efallai y byddwn yn hawlio ein grant yn ôl. Os ydych yn benthyca'r eitem(au) eisoes ar gyfer eich sefydliad, bydd angen i chi ddangos i ni pa fuddiannau ychwanegol y cyflenwir trwy ei phrynu/eu prynu.

Mae'n annhebygol y byddai prynu eitem dreftadaeth gan un casgliad a ariennir yn gyhoeddus oddi wrth un arall yn darparu budd digonol i'r cyhoedd er mwyn i ni ystyried ariannu'r pryniant.

Ni fyddwn yn cefnogi prynu eiddo y teimlwn ei fod yn cael ei werthu am bris sydd yn uwch na'r gwerth marchnadol.

Ni fyddwn yn rhoi blaenoriaeth i bryniant oherwydd ataliad allforio yn unig. Mae ataliad allforio yn rhoi cyfle i sefydliadau godi'r arian sydd ei angen i brynu eitem neu gasgliad y bwriedir ei allforio.

Mae'r ataliad allforio yn gohirio'r drwydded allforio am gyfnod penodol fel y gellir gwneud cynnig oddi fewn y DU.

Os ydych yn bwriadu gwneud cais i ni, dylech gysylltu â'ch swyddfa leol cyn gynted â phosibl, ac o fewn y cyfnod gohirio cyntaf.

Os oes angen penderfyniad arnoch ar frys, mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch swyddfa leol i drafod hyn cyn eich bod yn gwneud cais. Gallwn ond ystyried cynnig penderfyniadau cyflym ar gyfer prynu eitemau treftadaeth neu gasgliadau os yw'r dyddiad cau yn golygu nad ydym yn gallu asesu eich cais o fewn ein hamserlen arferol.

Bydd ein staff yn trafod goblygiadau ein gweithdrefn gyflym ar gyfer eich cais gyda chi. Os oes gennych ychydig o amser i brynu'r eitem(au), gofynnwn i chi ddarparu manylion ynglŷn â sut bydd y gwrthrych hwn yn cael ei integreiddio yn eich gweithgareddau dysgu a rhaglenni cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli.

Ni fyddwn yn gofyn i chi greu cynllun gweithgaredd ar wahân ond byddwn yn disgwyl i weithgareddau a rhaglenni fod yn briodol ar gyfer y gwrthrych yr ydych yn ei brynu.

### Costau

#### Mae'r costau cymwys sy'n gysylltiedig â phryniant yn cynnwys:

- y pris prynu ei hun
- ffioedd a godir gan eich sefydliad fel y prynwr, gan gynnwys prisiadau; ffioedd asiant; a phremiwm y prynwr ar gyfer pryniannau mewn arwerthiant
- TAW na ellir ei hawlio yn ôl

#### Mae'r costau anghymwys yn cynnwys:

- ffioedd y gwerthwr (e.e. ffioedd cyfreithiol a ffioedd yr asiant).

Dylech hefyd gynnwys y costau ar gyfer yr holl weithgareddau eraill y byddwch yn eu gwneud ar gyfer eich prosiect unwaith yr ydych wedi prynu'r eitem(au). Mae'n rhaid i gostau eich gweithgareddau fod yn gymesur i gost yr eitem(au).

### Y wybodaeth sydd ei hangen arnom ynglŷn â'r pryniant

#### Bydd angen i chi ddarparu:

- gwybodaeth am hanes ac arwyddocâd yr eitem(au)

- datganiad ynglŷn â pham mai chi yw'r sefydliad cywir i fod yn berchen ar yr eitem(au). Dylid cefnogi hwn gan yr hyn yr ydych yn ei ddweud yn eich polisiau, megis eich polisi caffael neu reoli casgliadau
- tystiolaeth i ddangos mai chi fydd perchennog llawn yr eitem(au) neu fod gennych achos da ar gyfer perchnogaeth ar y cyd sydd wedi'i chynllunio'n dda
- tystiolaeth ddogfennol o darddiad yr eitem(au). Mae enghreifftiau o dystiolaeth yn cynnwys dogfennau gwerthu, dogfennau cyfreithiol, dogfennau allforio, datganiad ysgrifenedig gan y perchennog presennol, hanes yr eitem(au)
- tystiolaeth mai'r perchnogion presennol yw'r perchnogion (bod ganddynt deitl cyfreithiol) a bod ganddynt yr hawl i werthu'r eitem(au) ac i drosglwyddo'r teitl i'r perchennog newydd
- prisiad annibynnol ar sail marchnad agored ar gyfer yr eitem(au) yr ydych yn dymuno ei phrynu/eu prynu; dylai hwn gynnwys ymresymiad y prisiwr i gefnogi'r prisiad, nid datganiad o'r gwerth yn unig; nid oes angen i chi gomisiynu prisiad ar gyfer eitem (neu eitemau) sy'n destun ataliad allforio neu sy'n rhan o'r broses prisio trysor

- tystiolaeth i ddangos eich bod wedi dilyn canllawiau cyfredol ynghylch hynafiaethau cludadwy, masnach anghyfreithlon, ac eitemau a chasgliadau a allent fod yn sensitif. Dylech ddarparu datganiad sy'n amlinellu'ch ymchwil i'r cyfreithiau a chanllawiau priodol ynghylch caffael yn foesebol
- disgrifiad ynghylch sut y byddwch yn rheoli'r eitem(au) ac yn ei chadw/eu cadw'n ddiogel, pan fyddwch yn ei phrynu/eu prynu ac yn y dyfodol
- adroddiad gwarchodwr sy'n datgan a oes gan yr eitem(au) anghenion cadwraeth ac, os felly, sut byddwch yn bodloni'r anghenion hynny. Dylai'r adroddiad gynnwys tystiolaeth fod gan eich sefydliad yr amodau amgylcheddol cywir i gartrefu'r eitem sy'n cael ei phrynu

**Os oes angen penderfyniad arnoch ar frys gennym, rhaid i chi gysylltu â'ch swyddfa leol i drafod hyn cyn eich bod yn gwneud cais.**

## Prosiectau yn cynnwys tir, cynefinoedd a rhywogaethau

### Prosiectau cofnodi biolegol

Dylai unrhyw arsylwadau ar rywogaethau gydymffurfio â'r safonau ar gyfer ansawdd data a hygyrchedd fel y nodir gan y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN) yn [Atlas yr NBN](#). Mae'n rhaid sicrhau bod yr arsylwadau hyn ar gael i'r cyhoedd ar drwydded agored ar y cydraniad a gymerwyd, yn amodol ar gyfyngiadau rhywogaethau sensitif.

Mae nifer o ffyrdd i gyflawni hyn. Efallai y byddai'n well gan bartneriaid data Atlas yr NBN cyflenwi setiau data yn uniongyrchol i Atlas yr NBN. Mae opsiynau eraill yn cynnwys drwy'r teclyn cofnodi ar-lein [iRecord](#) neu y gellir eu rhannu gyda'ch [canolfan cofnodi amgylcheddol leol neu ranbarthol](#) ar gyfer trosglwyddo ymlaen i [Atlas yr NBN](#). Sicrhewch os gwneir cyflwyniad i Atlas yr NBN trwy drydydd parti ei fod yn ymwybodol o'r gofynion i gyflwyno'r data hwn ar y cydraniad a gymerwyd ar drwydded agored.

Os nad ydych yn sicr ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen, cysylltwch â'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn uniongyrchol i drafod y llwybr cyflenwi data mwyaf priodol. Mae hefyd yn ofynnol eich bod yn bodloni ein gofynion digidol.

### Gweithio ar dir preifat

Mae nifer o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth i'w gweld ar dir y mae unigolion preifat neu sefydliadau er elw yn berchen arno.

Rydym yn derbyn ceisiadau ar gyfer prosiectau tirwedd a natur sydd ar dir cyhoeddus a thir a berchnogir yn breifat, ar yr amod fod y budd i'r cyhoedd yn fwy na'r elw preifat ar gyfer y tirlfeddiannwr (tirlfeddiannwr) unigol lle mae'r rhain yn unigolion preifat neu'n sefydliadau er elw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r prif ymgeisydd ar gyfer y prosiect fod yn sefydliad dielw neu'n gorff cyhoeddus os bydd eich cais am grant yn £100,000 neu'n fwy.

### Er mwyn cynnwys tir preifat, mae'n rhaid i'ch prosiect fodloni'r pedwar maen prawf isod:

- bod â rhan sylweddol o gynefin blaenoriaethol o ansawdd da neu gynnal poblogaeth sylweddol o rywogaethau blaenoriaethol y gellir ymestyn o'u plith;
- gwella a/neu ehangu maint ac ansawdd y cynefin, gan helpu i fodloni targedau cynefinoedd a rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU;
- cyfrannu at reoli'r ardal mewn modd cynaliadwy dros y tymor hir; a
- dangos dull strategol o warchod cynefin neu rywogaeth flaenoriaethol.

Hyd yn oed wrth weithio ar dir preifat, byddwn yn disgwyl bod rhywfaint o fynediad cyhoeddus yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn derbyn egwyddor lefelau parthedig ar gyfer mynediad corfforol o fewn ardal eich prosiect a'r ffaith na fydd mynediad corfforol bob amser yn briodol neu'n ddymunol am resymau cadwraeth cynefin.

Er hynny, dylai fod mynediad cyhoeddus eisoes i'r tir yr ydych yn berchen arno, a gallai fod gennych hefyd rywfaint o seilwaith, fel llwybrau neu guddfannau, a all helpu i ehangu mynediad i'r cyhoedd.

**Rydym yn derbyn ceisiadau am brosiectau tirwedd a natur ar diroedd cyhoeddus a phreifat, ar yr amod fod y budd i'r cyhoedd yn fwy nag unrhyw elw preifat.**

## Gofynion perchenogaeth trydydd parti

### 1. Ar gyfer prosiectau tirwedd a natur

Lle perchnogir ar y tir (sydd efallai'n cynnwys gwahanol blotiau o dir ar draws ardal eang) sy'n destun arian grant gan drydydd parti neu nifer o drydydd parti (gan gynnwys perchnogion preifat), dylid rhoi cytundebau cyfreithiol ar waith rhwng pob tirlfeddiannwr a derbynnydd y grant.

Nid oes gennym ffurf ragnodedig o gytundeb ond mae gennym ofynion penodol y dylai'u cynnwys mewn unrhyw gytundebau â thirlfeddiannwr trydydd parti. Ar y man lleiaf, dylai cytundebau â thirlfeddiannwr gynnwys y canlynol:

#### Manylion y partiön:

1. Cadarnhad ynglŷn â deiliadaeth y tir (rhydd-ddaliadol neu brydlesol);
2. Disgrifiad o'r eiddo (gan gynnwys cynlluniau);
3. Cyfamodau ar ran y tirlfeddiannwr i gynnal a chadw'r tir a darparu mynediad i'r cyhoedd yn unol â thelerau'r grant (fel y bo'n berthnasol);

- Darpariaeth fod unrhyw werthiant ymlaen yn ddarostyngedig i'r cytundeb trydydd parti.
- Y bydd y cytundeb yn para o ddechrau'r gwaith ar dir y drydydd parti nes deng mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

Bydd angen i chi ddarparu copïau i ni o'r cytundebau â thirfeddianwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn. Bydd angen cwblhau'r cytundebau â thirfeddianwyr a'u rhoi ar waith cyn y bydd unrhyw arian grant yn cael ei ryddhau ar gyfer gwaith ar bob llain o dir a berchnogir gan drydydd parti.

## 2. Ar gyfer gwaith cyfalaf i dreftadaeth adeiledig: (er enghraifft, adeiladau hanesyddol, gerddi addurniadol)

Os yw'ch prosiect yn cynnwys gwaith sylweddol i adeilad treftadaeth sy'n eiddo i drydydd parti, byddwn fel arfer yn disgwyl i'r perchennog ddod yn dderbynydd grant ar y cyd neu roi prydles i chi sy'n bodloni ein gofynion. Mewn rhai amgylchiadau, yn hytrach na gwneud y perchennog yn dderbynydd grant ar y cyd, efallai y byddwn yn gofyn iddo lofnodi llythyr ategol yn cytuno i gydymffurfio â thelerau'r grant i'r graddau y maent yn ymwneud â materion sydd o dan ei reolaeth.

## 3. Grantiau cymunedol

Efallai y byddwch yn dymuno gwneud taliadau i berchnogion trydydd parti (gan gynnwys perchnogion preifat) am weithgareddau a gwaith cyfalaf sy'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau ar gyfer treftadaeth, pobl neu gymunedau (rydym yn enwi'r rhain yn grantiau cymunedol). Os chi yw'r prif ymgeisydd, chi sydd yn gyfrifol am sicrhau bod canlyniadau penodol y prosiect yn cael eu cyflawni gan dirfeddianwyr trydydd parti (gan gynnwys perchnogion preifat) ac y cydymffurfir â thelerau'r grant, gan gynnwys ad-dalu'r grant os bydd angen.

Dylai hyn gael ei ffurfioli trwy gytundebau trydydd parti sy'n diffinio'r canlyniadau i'w cyflawni ar dir trydydd parti ac yn diogelu'r gwaith o reoli a chynnal a chadw gwaith cyfalaf o ddechrau'r gwaith ar y prosiect nes deng mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect. Dylai hyn fod yn gytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a derbynydd y grant cymunedol.

**Os chi yw'r prif ymgeisydd, chi sydd yn gyfrifol am sicrhau bod canlyniadau penodol y prosiect yn cael eu cyflawni gan dirfeddianwyr trydydd parti.**

Ar gyfer enghreifftiau o'r math o delerau ac amodau yr hoffech gynnwys yn eich cytundebau contractiol o bosib, edrychwch ar y canllawiau ar grantiau cymunedol.

## Costau cyfreithiol

Mae modd i chi gynnwys y costau ar gyfer addasu a sefydlu unrhyw gytundebau trydydd parti, gan gynnwys cost cael cyngor cyfreithiol, fel rhan o gostau datblygu eich cais.

## Beth nesaf?

Defnyddiwch ein rhestr wirio ddefnyddiol ar ddechrau'r canllaw hwn i sicrhau eich bod yn barod i ymgeisio. Yna gallwch chi gyflwyno eich ffurflen Mynegi Diddordeb ar-lein.

---

## Cysylltwch â ni

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gysylltu â ni ar ein [gwefan](#). 

Os hoffech wybod mwy am ein proses gwyno, ewch i'n [gwefan](#). 

